

## Llywodraeth Cymru

### Ymgynghoriad ar Weithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar Ddatblygiadau Newydd

#### Mynegai

#### RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol Cam Ymgynghori i Gychwyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 3 ar gyfer Draenio Cynaliadwy

Disgrifiad	3
Cefndir deddfwriaethol	3
Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth	4
Ymgynghoriad	8

#### RHAN 2 – Aseiad Effaith Cam Ymgynghori

Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried?	9
Dadansoddiad o gostau a buddion yr opsiynau	10
Aseiad cystadleuaeth	47
Aseidiadau Effaith Penodol	47

#### Atodiadau

Atodiad 1 – Datblygiadau tai

Atodiad 2 – Datblygiadau masnachol a diwydiannol

Atodiad 3 – Datblygwyr yng Nghymru

19 MAI 2017

**RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol Cam Ymgynghori i Gychwyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 3 ar gyfer Draenio Cynaliadwy**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol cam ymgynghori hwn i Gangen Polisi Dŵr Llywodraeth Cymru.

### **RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol Cam Ymgynghori i Gychwyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 3 ar gyfer Draenio Cynaliadwy**

#### **1. Disgrifiad**

- 1.1 Mae Atodlen 3 i'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr<sup>1</sup> (y Ddeddf) yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer draenio cynaliadwy (SuDS). Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Corff Cymeradwyo SuDS yn yr awdurdod lleol i gyd-fynd â'i ddyletswydd fel awdurdod llifogydd lleol arweiniol. Bydd angen cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo cyn y gall y gwaith o adeiladu systemau draenio gychwyn ar safleoedd newydd a safleoedd sy'n cael eu hailddatblygu. Cyn belled bod safonau cenedlaethol priodol yn cael eu bodloni<sup>2</sup>, bydd yn ofynnol i'r corff cymeradwyo SuDS fabwysiadu a chynnal a chadw'r SuDS wedi eu cymeradwyo sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo.
- 1.2 Gall SuDS gynnig nifer o wahanol fanteision, gan gynnwys *lleihau difrod llifogydd, gwella ansawdd dŵr, diogelu a gwella'r amgylchedd, sicrhau iechyd a diogelwch, a sicrhau sefydlogrwydd a chryfder systemau draenio*. Mae'r rhain yn gyson â'r nodau llesiant a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>3</sup>.
- 1.3 Ar hyn o bryd, nid yw defnyddio SuDS ar ddatblygiadau newydd yn orfodol. O ganlyniad, mae'r defnydd o SuDS yn gyfyngedig ac nid yw'r systemau bob amser yn cydymffurfio â'r safonau. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd ansicrwydd ynglŷn â mabwysiadu a gwaith cynnal a chadw rheolaidd.

#### **2. Cefndir deddfwriaethol**

- 2.1 Dan baragraff 19 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd i ddeddfu mewn cysylltiad â chyflenwi dŵr, rheoli adnoddau dŵr, ansawdd dŵr a rheoli perygl llifogydd, a chymhwysedd i gynrychioli defnyddwyr dŵr a charthffosydd. Mae SuDS, sy'n ymdrin â draenio dŵr wyneb at ddibenion rheoli perygl llifogydd, yn dod o fewn y cymhwysedd hwn.
- 2.2 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â draeniad dŵr wyneb yng Nghymru yn unig. Mae hyn yn wahanol i bob agwedd arall ar garthffosiaeth a draeniad sy'n cael eu darparu gan ymgwymerwyr carthffosiaeth dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am reoleiddio ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu yn bennaf yng Nghymru ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyfrifoldeb am gwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu yn bennaf yn Lloegr. O ganlyniad, ar gyfer gwasanaethau draenio sy'n cael eu darparu gan yr ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth, mae'r rhannau hynny o Gymru sy'n cael eu gwasanaethu gan Severn Trent Water yn cael eu rheoleiddio gan yr Ysgrifennydd

<sup>1</sup> Llywodraeth y DU (2010) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (2016) Safonau anstatudol a argymhellir ar gyfer draenio cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Gwladol ac mae'r rhannau hynny o Loegr sy'n cael eu gwasanaethu gan Dŵr Cymru yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru.

- 2.3 Mae Atodlen 3 i'r Ddeddf yn defnyddio'r term "Gweinidog" i olygu Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Defnyddir y term "Gweinidog" yn y ddogfen hon i olygu Gweinidogion Cymru.

### 3. Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

- 3.1 Mae'r adran hon yn cynnwys amcan(ion) polisi'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys asesiad o'r rheswm pam y credir bod angen i'r llywodraeth ymyrryd. Ceir gwybodaeth fanylach am y pwyntiau hyn yn Rhan 2, lle mae manylion costau a buddion yr opsiynau'n cael eu hystyried.

### Beth yw'r broblem sy'n cael ei hystyried?

- 3.2 Mae tua 163,000 o eiddo yng Nghymru yn wynebu perygl llifogydd dŵr wyneb (120,000 preswyl a 43,000 dibreswyl)<sup>4</sup>. Amcangyfrifir bod llifogydd o ganlyniad i ddŵr wyneb ffo yn costio £60-£130 miliwn y flwyddyn yng Nghymru, ac mae 29% o hyn yn gostau i fusnesau.
- 3.3 Mae perygl llifogydd ar gynydd, yn bennaf oherwydd newid hinsawdd a threfoli. Gall dŵr wyneb ffo fod yn un o'r prif ffynonellau llygredd; yn uniongyrchol ac wrth i garthffosydd gorlawn arllwys i afonydd. Mae pwysau i weithredu mewn cysylltiad ag ansawdd dŵr, er enghraifft drwy gynyddu capasiti'r system garthffosiaeth, hefyd yn deillio o'r angen presennol i gydymffurfio â deddfwriaeth yr UE, yn enwedig y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- 3.4 Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru (ibid, t.4) mae "*diffyg amlwg o 'egllurder cyhoeddus' dros gyfrifoldebau ('pwy sy'n gwneud beth'), yn enwedig mewn perthynas â rheoli llifogydd arfordirol a dŵr wyneb*". Un mater penodol sy'n peri pryder yw'r diffyg cyfrifoldebau clir am gynnal a chadw a gweithredu systemau draenio dŵr wyneb nad ydynt yn cael eu diffinio fel draeniau pibellau neu garthffosydd traddodiadol sy'n cysylltu â'r system carthffosydd cyhoeddus neu fel arall.
- 3.5 Mae SuDS (Systemau Draenio Cynaliadwy) yn lleihau cyfradd a chyfaint dŵr wyneb ffo o ddatblygiadau i fod yn fwy tebyg i safleoedd 'maes glas'. Mae hyn at ei gilydd yn golygu llai o ddŵr na draeniau confensiynol neu bod y dŵr yn llifo'n arafach. Mae'n ddull mwy cynaliadwy a chadarn o ddraenio ac mae'r cydrannau nodweddiadol yn cynnwys pyllau dŵr, palmentydd athraidd a phantiau<sup>5</sup>.
- 3.6 Mae Atodlen 3 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi ei bod yn ofynnol i ddatblygwyr gael cymeradwyaeth i systemau draenio gan gorff cymeradwyo SuDS cyn cychwyn unrhyw waith adeiladu sydd â goblygiadau o ran draeniad. Rhaid i'r corff cymeradwyo SuDS benderfynu a yw'r cais yn bodloni'r Safonau Cenedlaethol gan ystyried canllawiau statudol. Rhaid i bob SuDS a gymeradwywyd sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo gael ei mabwysiadu a'i chynnal a'i chadw gan y corff cymeradwyo SuDS dan y ddarpariaeth.

<sup>4</sup> Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol yng Nghymru, 2014 – 2016

<sup>5</sup> CIRIA (2015) The SuDS Manual (C753)

- 3.7 Gellir caniatáu eithriadau i'r trefniadau drwy reoleiddio ac mae'r Ddeddf yn benodol yn caniatáu cychwyn yn raddol er mwyn rheoli effeithiau ar Awdurdodau Lleol a busnesau.
- 3.8 Roedd adolygiad Pitt<sup>6</sup>, a ddilynodd lifogydd 2007, yn cynnwys argymhellion penodol yn ymwneud â dŵr wyneb ffo:
- Egluro'r cyfrifoldeb am fabwysiadu a chynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy; a
  - Dileu'r hawl awtomatig i gysylltu â charthffosydd dŵr wyneb cyhoeddus (Adran 106 ac Adran 115 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991).

### **Pam y mae angen i'r Llywodraeth ymyrryd?**

- 3.9 Mae'r cyfiawnhad dros SuDS, a'r defnydd o SuDS, wedi'i hen sefydlu yn y system gynllunio, gan gynnwys Rhan H o'r Rheoliadau Adeiladu (sy'n cydgrynhoi safonau a oedd wedi'u cynnwys cyn hynny yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy), yn ogystal â safonau gwirfoddol megis y Nod Ansawdd Cartrefi. Er hyn, ychydig o ddatblygwyr sy'n defnyddio SuDS ar hyn o bryd, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfraniad posibl SuDS tuag at leihau effeithiau perygl llifogydd o ganlyniad i ddŵr wyneb ffo a'r perygl o garthffosydd gorlawn, neu eu cyfraniad posibl tuag at ddiogelu ansawdd dŵr.
- 3.10 Yn y gorffennol, adeiladwyd y rhan fwyaf o ddatblygiadau â draeniau ar wahân ar gyfer dŵr budr a dŵr wyneb ffo, ond mae tua 70% o rwydwaith carthffosydd y DU yn ddraeniau cyfun, felly mae llawer o ddraeniau dŵr wyneb yn cysylltu â charthffosydd cyfun sy'n bodoli'n barod. Gellir disgrifio cyfran gymharol isel (tua 20-40% ar sail tystiolaeth anecdotaidd) fel SuDS sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol<sup>7</sup>. Mae'r farchnad wedi bod yn hir iawn yn cynnwys SuDS yn wirfoddol mewn cynlluniau datblygu. Mae'r farchnad wedi cael ei chyfyngu gan:
- Fethiant gwybodaeth – ar hyn o bryd, mae diffyg safonau gorfodol cyson. Er bod arferion da'n bodoli, mae arferion drwg i'w gweld hefyd ac maent yn cyfrannu tuag at ganfyddiad fod SuDS yn gostus ac yn golygu costau nad ydynt yn hanfodol;
  - Allanoldeb – nid oes cysylltiad rhwng y rhai sy'n rheoli a/neu'n talu am ddraeniau dŵr wyneb a'r rhai sy'n cael budd o reoli cynaliadwy. Mae'r manteision yn aml yn rhai cyhoeddus ac i'w gweld at ei gilydd ymhellach i ffwrdd, h.y. gryn bellter o'r man lle mae'r glaw yn disgyn a lle mae angen canfod rhywle iddo fynd;
  - Diffyg trefniadau cydlynol ar gyfer mabwysiadu draeniau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ddatblygwyr neu Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i ariannu gwaith cynnal a chadw rheolaidd SuDS, os ydynt yn cael eu hadeiladu. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer hyn yn amrywio'n fawr ac yn drefniadau *ad-hoc*.

<sup>6</sup> Swyddfa'r Cabinet (2008) The Pitt Review: Learning the Lessons from the 2007 Floods

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (2016) Safonau anstatudol a argymhellir ar gyfer draenio cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru

3.11 Yn ogystal â'r cyfyngiadau y cyfeiriwyd atynt uchod, nid oes llawer o gymhelliant i reoli dŵr wyneb ffo yn y farchnad:

- Mae'r hen drefn o ddraenio dŵr wyneb ffo i'n carthffosydd yn golygu bod dŵr budr a dŵr wyneb ffo yn aml yn cael eu gweld fel un broblem. Fodd bynnag, ychydig iawn o newid a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng nghyfanswm y dŵr y mae pob unigolyn yn ei ddefnyddio yn ei gartref<sup>8</sup> h.y. dim llawer o welliant o ran effeithlonrwydd dŵr y pen. Ar y llaw arall, mae Ofwat yn amcangyfrif cynnydd o 27% mewn llifogydd carthffosydd o ganlyniad i newid hinsawdd yn y dyfodol. O ganlyniad, bydd dylanwad dŵr wyneb ffo (sy'n cael ei ddylanwadu gan batrwm newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â lledaeniad trefi) ar ein carthffosydd yn cynyddu i gyfateb i'r dŵr budr y mae angen ei drin.
- Mae'r trefniadau presennol ar gyfer yswiriant llifogydd yn cael eu traws-sybsideiddio i raddau helaeth gan y rhai nad ydynt mewn perygl, ac oherwydd hyn nid yw datblygwyr yn cael eu hysgogi i ddefnyddio mesurau rheoli, gan gynnwys SuDS.

### Amcan Polisi

3.12 Bwriad cychwyn Atodlen 3 yw:

- Gwneud darparu SuDS yn ofyniad statudol yn hytrach nag anstatudol;
- Sicrhau cydymffurfiad â safonau, a chysondeb safonau, er mwyn rheoli dŵr wyneb yn yr hirdymor;
- Rhoi sicrwydd i ddatblygwyr y bydd SuDS yn cael eu mabwysiadu heb fod angen trafodaethau hirfaith neu gostau mawr;
- Lleihau perygl llifogydd dŵr wyneb yn lleol;
- Lleihau effeithiau llygredd a allai ddeillio o ddŵr wyneb ffo; a
- Lleihau pwysau ychwanegol ar garthffosydd cyhoeddus a'r angen am fwy o gapasiti.

3.13 Mae'r manteision eraill anuniongyrchol yn cynnwys:

- Helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef (1) Cymru Lewyrchus, (2) Cymru Gydnerth, (3) Cymru Iachach, (4) Cymru sy'n fwy cyfartal, (5) Cymru o gymunedau cydlynus, a (6) Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang;
- Sicrhau cydymffurfiad â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n gosod dyletswyddau yn ymwneud â "*datblygu cynaliadwy*" sy'n gyson â nodweddion SuDS ar ddatblygiadau newydd;
- Cyfrannu tuag at ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;

---

<sup>8</sup> Asiantaeth yr Amgylchedd (2008) Water resources in England and Wales – current state and future pressures

- Helpu i gyflawni nodau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE;
- Lleihau llygredd aer drwy gynyddu'r defnydd o seilwaith gwyrdd, a chyfrannu tuag at fodloni Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010;
- Cyfrannu tuag at nodau'r Strategaeth Ddŵr i Gymru, sy'n amlinellu cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr am yr 20 mlynedd nesaf ac ar ôl hynny;
- Cyfrannu tuag at Raglen Lywodraethu Cymru ar gyfer 2016-2021, sydd â'r nod o greu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig a chysylltiedig. Mae'n nodi seilwaith gwyrdd fel cyfle i fynd i'r afael â materion tlodi, tai a seilwaith, a chyflawni amcanion ehangach mwy hirdymor yr un pryd;
- Helpu i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru, sy'n nodi bod yn rhaid i gartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai) fel tai cymdeithasol ac i'w gwerthu ar y farchnad agored fod wedi eu "*lleoli mewn amgylchedd atyniadol a diogel*", y dylent ddefnyddio "*tirlunio meddal a chaled â phlanhigion mewn ardaloedd gwarchoddedig*" a darparu "*digon o ardaloedd cymunol ymarferol y gellir eu cynnal a'u cadw*";
- Helpu Cymru i gyflawni amcanion lleihau carbon<sup>9</sup> ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd;
- Cynyddu cynefinoedd gwlyptir a manau gwyrdd trefol er mwyn cyflawni nod y Strategaeth Fioamrywiaeth Genedlaethol a'r ymrwymadau i'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar.

### Pam SuDS?

- 3.14 Rhagwelir y bydd difrod llifogydd o ganlyniad i ddŵr wyneb ffo yn cynyddu rhwng 60% a 220%. Mae'r ystod yn deillio o ansicrwydd mewn rhagfynegiadau hinsawdd dros yr 50 mlynedd nesaf o ganlyniad i wahanol batrymau dyddodiad yn sgil newid hinsawdd a mwy o drefoli.
- 3.15 Gall SuDS leihau'r cynnydd hwn drwy storio dŵr ffo, arafu'r cyflymder y mae dŵr ffo'n mynd i gyrff dŵr a helpu dŵr ffo i dreiddio i'r ddaear. Amcangyfrifir y gall SuDS leihau difrod llifogydd gymaint â 30%.
- 3.16 Adeiladwyd y rhan fwyaf o drefi a dinasoedd Cymru â charthffosydd cyfun lle mae dŵr wyneb ffo yn cymysgu â dŵr budr ac yna'n cael ei gludo i waith trin dŵr gwastraff sy'n tynnu dŵr glân allan. Mae'r systemau carthffosiaeth presennol, mewn tua hanner y rhwydwaith, yn llawn neu'n orlawn.
- 3.17 Yn y sefyllfaoedd hyn, mewn cyfnodau o law trwm, mae'r carthffosydd cyfun yn llenwi'n sydyn iawn. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd carthion heb eu trin a dŵr budr yn mynd i nentydd ac afonydd drwy sianeli gorlifo (a fwriadwyd er mwyn atal llifogydd tebyg mewn eiddo). Mewn llifogydd, bydd hyn yn cyfuno â dŵr llifogydd, ac mewn nifer fach o achosion gall hefyd lifo'n uniongyrchol i mewn i gartrefi.

---

<sup>9</sup> Yn gyson â'r cyngor a nodwyd gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (2017) Cyngor i Lywodraeth Cymru am Gyllidebau Carbon

- 3.18 Cyfyngir ar swm yr arllwysiadau cyfreithlon gan drwyddedi Cyfoeth Naturiol Cymru a chan y cyfarwyddebau a ganlyn:
- Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi;
  - Cyfarwyddeb Pysgod Cregyn;
  - Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
  - Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol.
- 3.19 Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn werth £174 biliwn a bydd yn rhaid i hyn gynyddu 35% yn y 30 mlynedd nesaf er mwyn gallu dygymod â newid hinsawdd, lledaeniad trefi a chysylltiadau newydd. Gellid lleihau'r cynnydd mewn capasiti i 29% drwy beidio â gwneud cysylltiadau newydd (drwy gyflwyno SuDS). Gallai hyn arbed hyd at £10.4 biliwn mewn buddsoddiad gan gwmnïau dŵr a charthffosiaeth.
- 3.20 Mae SuDS yn gyfle i osgoi llawer o'r cysylltiadau newydd a datblygu seilwaith amgen i garthffosydd cyhoeddus – gan gynnig arbedion sylweddol mewn buddsoddiad.

#### 4. Ymgynghori

- 4.1 Wrth ddatblygu'r dystiolaeth i gefnogi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol<sup>10</sup>, ymgynghorwyd â nifer o wahanol sefydliadau a sectorau, gan gynnwys:
- Awdurdodau lleol
  - Datblygwyr ac adeiladwyr cartrefi
  - Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth
  - Cyfoeth Naturiol Cymru
  - Cyrff anllywodraethol a'r trydydd sector
  - Cyrff defnyddwyr
  - Y byd academaidd
  - Gweithwyr proffesiynol mewn sectorau
5. Mae rhagor o fanylion am y broses ymgynghori wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod (Rhan 2).

---

<sup>10</sup> Gweler er enghraifft EPC (2017) Sustainable Drainage Systems on new developments, Analysis of evidence including costs and benefits of SuDS construction and adoption. Final Report for the Welsh Government, Ionawr 2017.



**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**6. Pa Opsiynau Polisi sydd wedi cael eu hystyried?**

6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried tri phrif opsiwn polisi (Tabl 1).

*Tabl 1: Crynodeb o'r opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried*

<b>Opsiwn polisi</b>	<b>Enw</b>	<b>Disgrifiad</b>
1	Gwneud dim	Yr opsiwn sylfaenol, sy'n golygu parhau â'r polisi anrheoleiddiol presennol.
2	Cychwyn Atodlen 3	Defnydd gorfodol o SuDS sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol ar bob datblygiad bach a mawr (mwy nag un 1 annedd neu safleoedd sy'n fwy na 0.5 hectar).
3	Dull cynllunio	Disgwyliad y bydd SuDS yn cael eu darparu ar bob datblygiad bach a mawr lle bynnag y mae hynny'n briodol ac oni ddangosir nad yw'n briodol. Defnyddio amodau cynllunio neu rwymedigaethau cynllunio i sicrhau bod trefniadau clir yn bodoli ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd drwy gydol oes y datblygiad.

6.2 Yn ogystal â'r tri opsiwn a amlinellwyd uchod, trafodwyd nifer o opsiynau eraill ond ni chawsant eu cynnwys ar gyfer ystyriaeth lawn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er hyn, mae'n bosibl nad yw rhai ohonynt yn anghyson â'r opsiynau polisi a nodwyd uchod, a thrafodir y rhain yn y papur ymgynghori ehangach. Dangosir yr opsiynau hyn, a'r rheswm pam na chawsant eu cynnwys, yn Nhabl 2.

*Tabl 2: Opsiynau a drafodwyd ond na chawsant eu cynnwys ar gyfer ystyriaeth lawn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol*

<b>Opsiwn</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Rheswm dros beidio â chynnwys</b>
Mabwysiadu gan gwmni dŵr	Gofynnol i gwmni dŵr a charthffosiaeth fabwysiadu, a bod yn gyfrifol am gynnal a chadw, SuDS penodol (e.e. perchenogol, o dan y ddaear) sy'n cydymffurfio â safonau.	Ystyrir opsiynau ar gyfer mabwysiadu SuDS yn wirfoddol a'u cynnal a chadw gan gwmni dŵr yn y papur ymgynghori ehangach. Byddai mabwysiadu anwirfoddol yn galw am newid mewn deddfwriaeth sylfaenol (adran 104 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991), a deddfwriaeth i ddileu hawl awtomatig i gysylltu.  Yn creu cymhelliant i osod systemau lle byddai mwy o sicrwydd o fabwysiadu (yn debygol o fod o dan y ddaear, fel yn yr Alban).

Atodlen 3 ddiwygiedig	Sefydlu corff cymeradwyo i gymeradwyo SuDS, ond SuDS yn cael eu mabwysiadu gan grwpiau gwahanol, er enghraifft awdurdod lleol, cwmni dŵr a charthffosiaeth neu gymdeithas dai, gan ddibynnu ar ymarferoldeb, manteision ac yn y blaen.	Trafodir opsiynau ar gyfer diwygio Atodlen 3, e.e. drwy reoliadau a gorchmynion, yn y papur ymgynghori ehangach.  Risg uchel y bydd gwahanol ddulliau gweithredu mewn gwahanol ardaloedd ac y bydd safonau'n cael eu dyblygu.  Hefyd, mae rhoi cyfrifoldebau SuDS i lawer o gyrff yn debygol o greu dryswch.
<i>Sewers for adoption</i>	Diweddarau <i>Sewers for Adoption</i> (canllawiau ar gyfer dylunio ac adeiladu carthffosydd a fydd yn cael eu mabwysiadu gan Ymgymerywyr Carthffosiaeth yn unol ag Adran 104 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991) i gynnwys SuDS.	Dim gofyniad gorfodol, felly nid yw'n debygol o newid llawer ar y sefyllfa bresennol.

### Pa opsiwn sy'n cael ei ffafrio?

- 6.3 Opsiwn 2 yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Amcangyfrifir bod gwerth presennol net Opsiwn 2 yn £155.5m (yn amrywio o £78.9m i £945.2m). Mae'n gadarnhaol awgrymu bod y buddion net i gymdeithas yn fwy na'r costau net i gymdeithas. Gwerth presennol net Opsiwn 1 yw dim, ac amcangyfrifir bod gwerth presennol net Opsiwn 3 yn £52.2m, h.y. tua un rhan o dair o fuddion yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio.

## 7. Dadansoddiad o Gostau a Buddion yr Opsiynau

- 7.1 Rydym wedi defnyddio canllawiau a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi<sup>11</sup> i wneud Dadansoddiad o Gostau a Buddion y tri opsiwn polisi.
- 7.2 Cymerir mai'r cyfnod arfarnu yw rhwng 2018 a 2026. Dewiswyd y flwyddyn olaf (2026) gan fod hyn yn cyfateb i flwyddyn olaf llawer o'r cynlluniau datblygu lleol yng Nghymru, h.y. mae mwy o sicrwydd ynglŷn â graddfa a maint tai a datblygiadau eraill yn ystod y cyfnod hwn. Wrth gwrs, gellid cyfiawnhau cyfnod arfarnu hwy, a gallai fod yn briodol, ond byddai graddfa a maint datblygiadau newydd a newidiadau allanol yn fwy ansicr. Er hyn, byddai mabwysiadu cyfnod hwy yn rhoi mwy o bwysigrwydd i'r effeithiau hynny sy'n digwydd yn rheolaidd dros gyfnod. Mae hyn yn cael ei archwilio drwy ddadansoddiad sensitifrwydd.
- 7.3 Mae effeithiau'r opsiynau wedi cael eu dosbarthu fel naill ai:

<sup>11</sup> Trysorlys Ei Mawrhydi (2011) Y Llyfr Gwyrdd

- Untro – cymerir bod yr effeithiau'n digwydd ar ddechrau'r cyfnod arfarnu (2018); neu
  - Rheolaidd – cymerir bod yr effeithiau'n digwydd bob blwyddyn (rhwng 2018 a 2026 gan gynnwys y blynyddoedd hynny).
- 7.4 Yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, mae cymhareb disgownt o 3.5% wedi cael ei chymhwyso i gostau a buddion y dyfodol, er mwyn cyfrifo gwerth effeithiau gwerth presennol. Mae newid y gyfradd hon yn cael ei archwilio drwy ddadansoddiad sensitifrwydd.
- 7.5 Mae'r Asesiad Risg Rheoleiddiol yn canolbwyntio ar gostau a buddion ychwanegol neu fân gostau a buddion sy'n gysylltiedig ag opsiynau 2 a 3. O ganlyniad, nid yw unrhyw gostau/buddion dan Opsiwn 1 (yr opsiwn 'Gwneud Dim') yn ychwanegol at y sefyllfa bresennol a chymerir eu bod yn sero.
- 7.6 Mae'r costau a'r buddion sy'n crynhoi i nifer o grwpiau a sefydliadau allweddol wedi cael eu hystyried. Y grwpiau a'r sefydliadau hyn yw:
- Llywodraeth Cymru
  - Awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo SuDS
  - Datblygwyr
  - Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth
  - Perchenogion/meddianwyr eiddo
  - Cyfoeth Naturiol Cymru
  - Y boblogaeth gyffredinol
- 7.7 Penderfynwyd ynglŷn â'r effeithiau penodol a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith blaenorol amrywiol, gan gynnwys Defra (2010)<sup>12</sup>, y Llawlyfr SuDS<sup>13</sup> a Benefits of SuDS Tool (BeST) a ddatblygwyd gan CIRIA, a gwybodaeth arbenigol. Mae rhestr lawn o'r effeithiau a ystyriwyd i'w gweld yn Nhabl 3.

*Tabl 3: Effeithiau a ystyriwyd (rhestr lawn)*

Effeithiau posibl	Disgrifiad
Adeiladu	Adeiladu SuDS sy'n cydymffurfio â safonau
Ffioedd (datblygwyr)	Ffi gwneud cais/cymeradwyo/ardystio/archwilio/mabwysiadu
Cymryd tir	Tir ychwanegol sy'n cael ei gymryd ar gyfer SuDS
Sefydlu (datblygwyr)	Meithrin gallu, uwchsgilio a hyfforddi
Taliadau cysylltu (datblygwyr)	Osgoi ceisiadau/taliadau cysylltu dŵr wyneb
Mabwysiadu,	Llai o weithredu a monitro, a sicrwydd o fabwysiadu, yn arwain at

<sup>12</sup> Cychwyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 3 ar gyfer Draenio Cynaliadwy: Asesiad Effaith

<sup>13</sup> CIRIA (2015) The SuDS Manual (C753)

## Atodiad 1

gweithredu a monitro (datblygwyr)	arbedion effeithlonrwydd yn y broses gynllunio a gwaith datblygu, yn ogystal â llai o ryngweithio neu ryngweithio symlach â chasgliad cymhleth o fuddiannau, gan gynnwys y cwmnïau dŵr a gwastraff, yr Awdurdod Cynllunio, yr Awdurdod Prifffyrdd a Cyfoeth Naturiol Cymru.
Sefydlu (awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo SuDS)	Sefydlu corff cymeradwyo SuDS, gan gynnwys gweinyddiaeth, cyfrifyddu, ffioedd cyfreithiol, taliadau cofrestru, hysbysebu, gweithgaredd hyrwyddo, ymgysylltu, hyfforddi gweithwyr, ac yn y blaen
Gweithredu a monitro (awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo SuDS)	Gweithredu a chynnal a chadw SuDS
Mabwysiadu (awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo SuDS)	Dyletswydd/cyfrifoldeb ychwanegol i gynnal a chadw, yn cael ei gwrthbwysu o bosibl gan lai o berygl o gynlluniau'n cael eu gadael
Refeniw (awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo SuDS)	Refeniw o ffioedd gwneud cais/cymeradwyo
Monitro a gorfodaeth (awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo SuDS)	Monitro a gorfodi SuDS, gan gynnwys apelïadau a sicrhau gweithrediad priodol (e.e. palmantau mân-dyllog a ffosydd cerrig)
Sylfaen asedau (cwmnïau dŵr a charthffosiaeth)	Cost cyfle cynnydd rhagweladwy mewn sylfaen asedau, y gall cwmnïau wneud elw o ganlyniad iddo
Taliadau cysylltu (cwmnïau dŵr a charthffosiaeth)	Llai o refeniw o geisiadau/taliadau cysylltu dŵr wyneb
Seilwaith	Llai o angen/Gohirio'r angen i fuddsoddi mewn seilwaith carthffosiaeth yn y dyfodol, llai o gostau gweithredu a monitro ar gyfer carthffosydd confensiynol (e.e. pwmpio, trin) a gwella'r gallu i fabwysiadu dull integredig ar gyfer systemau dŵr trefol.
Monitro a gorfodi (cwmnïau dŵr a charthffosiaeth)	Llai o angen monitro a gorfodi cysylltiadau carthffosiaeth
Taliadau dŵr wyneb	Lleihad mewn taliadau a delir gan berchnogion/meddianwyr eiddo am ddraenio dŵr wyneb

## Atodiad 1

Perygl llifogydd	Osgoi difrod ac effeithiau cysylltiedig (e.e. ar iechyd seicolegol) o ganlyniad i lai o berygl llifogydd
Amwynder	Datblygiadau mwy atyniadol a brafiach i fyw ynddynt
Gweithredu a monitro (perchenogion/ meddianwyr eiddo)	Cyfrifoldebau ychwanegol am ddŵr wyneb ar gwrtil
Tymheredd adeilad	Effaith SuDS ar oeri (haf) neu inswleiddio (gaeaf)
Troseddau	Llai o droseddau yn erbyn eiddo neu bobl
Gostegu traffig	Risg damweiniau ffyrdd neu gyfleoedd hamdden ar stryd
Torri cyfraith Ewropeaidd	Osgoi perygl o dorri cyfarwyddebau'r UE sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr
Twf	Twf economaidd
Galluogi datblygu	Cyfraniad tuag at dargedau tai fforddiadwy
Apeliadau	Costau sefydlu a rhedeg Arolygiaeth Gynllunio i ymdrin ag apeliadau
Manteision ehangach	Nodau cysylltiedig yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan gynnwys Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach ac yn y blaen
Cynaeafu dŵr glaw	Lleihau llif, llygredd neu ddefnydd o'r prif gyflenwad
Twristiaeth	Atyniad safleoedd ymwelwyr
Rheoleiddio	Gwella gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig, perygl llifogydd dŵr wyneb a darparu manteision ecosystem
Perygl llifogydd	Mwy o risg o lifogydd mewn mannau cyhoeddus (e.e. ffyrdd) o ganlyniad i ormodiant
Bioamrywiaeth	Cynefinoedd a chyfleoedd newydd neu well i fywyd gwylt
Carbon	Lleihau neu ddal a storio allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i lai o bwmpio/trin neu blannu newydd/ychwanegol
Addysg	Mwy o gyfleoedd i ddysgu a datblygu
Newid hinsawdd	Gwella'r gallu i leihau effeithiau disgwylidig newid hinsawdd ac addasu iddynt
Swm y dŵr	Rhagor o ddŵr wyneb neu ddŵr daear ar gael i'w dynnu, neu i helpu i liniaru sycher/prinder dŵr
Iechyd	Gwell iechyd a lles o ganlyniad i gynyddu/gwella mynediad a defnydd o fannau gwyrdd neu, gan ddibynnu ar y math o SuDS a ddefnyddiwyd, gwell ansawdd aer a rheoli tymheredd (e.e.

	defnyddio toeau gwyrdd)
Hamdden	Gwell cyfleoedd hamdden (e.e. cerdded, pysgota, chwaraeon dŵr)
Ansawdd dŵr	Llai o garthffosydd/dŵr wyneb yn gorlifo, a dŵr wyneb yn treiddio i'r ddaear yn naturiol cyn iddo fynd i gyrsiau dŵr, gan wella ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear, a dyfroedd yr aberoedd a'r arfordir, yn gyson ag amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

- 7.8 Mabwysiadwyd dull gweithredu cymesur, gyda'r effeithiau uchod yn cael eu 'sgrinio' er mwyn canfod eu harwyddocâd. Lle bo costau a buddion yn debygol o fod yn fach, neu lle bernir bod yr effeithiau'n debygol o effeithio ar ddim ond ychydig o sefydliadau/cwmnïau, neu lawer o sefydliadau/cwmnïau ond i raddau bach iawn, ni roddwyd amcangyfrif o'u gwerth. Amcangyfrifwyd gwerth effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol arwyddocaol gan ddefnyddio BeST.
- 7.9 Mewn llawer o achosion, ni ddisgwylir unrhyw newid net cyffredinol, er y disgwylir rhyw gymaint o ailddosbarthu ('trosglwyddo' costau a buddion o un grŵp i un arall). Yn yr achosion hyn, mae'r effeithiau wedi cael eu hasesu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 7.10 Mae pob effaith yr amcangyfrifwyd ei gwerth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys dwy gydran:
- Amcangyfrif mesuredig o'r effaith flynyddol; a
  - Gwerth uned ariannol.

Mae'r rhain yn cael eu lluosu i gyfrifo gwerth ariannol blynyddol i bob effaith sylweddol. Lle bo modd, ystyrir amcangyfrifon isel ac uchel ar gyfer pob cydran (yn ogystal â'r amcangyfrif canolog neu orau). O ganlyniad, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys ystod ar gyfer pob gwerth ariannol blynyddol. Gwnaethpwyd dadansoddiad sensitifwydd pellach hefyd, sy'n ystyried newidiadau i bamedrau allweddol y gyfradd ddisgownt a'r cyfnod asesu.

- 7.11 Yn y dadansoddiad a'r cyflwyniad sy'n dilyn, mae effeithiau â gwerth cadarnhaol yn dangos budd, tra mae effeithiau â gwerth negyddol yn dangos cost.

### Tybiaethau

- 7.12 Mae'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth wneud yr Asesiad Risg Rheoleiddiol i'w gweld yn Nhabl 4.

*Tabl 4: Y prif dybiaethau yn yr Asesiad Risg Rheoleiddiol*

<b>Tybiaethau cyffredinol</b>	
1	Disgwyllir i newidiadau gweinyddol fod yn niwtral o ran cost
2	Cyflwynir yr holl effeithiau â gwerth fel buddion. O ganlyniad, mae costau'n ymddangos fel gwerthoedd negyddol.
3	Asesir buddion ehangach sylweddol drwy ddefnyddio BeST. Mae'r rhain yn cynnwys amwynder, addysg a charbon.
4	Mae datblygiadau masnachol a diwydiannol yn cynnwys y rhai sydd dros 0.1ha (100m <sup>2</sup> ).
5	Cymerir bod buddion yn dechrau crynhoi o 2018 ymlaen, sef blwyddyn gyntaf y cyfnod arfarnu.
6	Y raddfa amser ar gyfer yr asesiad yw 2026, er mwyn bod yn gyson â blwyddyn olaf y rhan fwyaf o'r cynlluniau datblygu lleol yng Nghymru.
7	Mae gwerthoedd hanesyddol wedi cael eu diweddarau i brisiau 2016 gan ddefnyddio cyfrifiannell chwyddiant ar-lein Banc Lloegr.
8	Mae cyflog cyfartalog wedi'i bwysoli swyddog y corff cymeradwyo SuDS yn amrywio o £30,369 (cyflog cyfartalog peiriannydd sifil) i £61,467 (Defra, 2010) (£72,326 ym mhrisiau 2016), cymedr (canolog) £51,348. Mae cyflogau'n debygol o amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru.
9	Costau rhedeg cyrff cymeradwyo SuDS - 1 Gweithiwr Amser Llawn (FTE) i bob 100 o geisiadau draenio mawr y flwyddyn neu 150 o geisiadau draenio bach a mawr y flwyddyn.
10	Nifer y ceisiadau i gorff cymeradwyo SuDS (mawr ar raddfa fawr) 9.75 (isel) 21.3 (uchel); (mawr ond heb fod ar raddfa fawr) 42.25 (isel) 92.3 (uchel); (bach) 510.25 (isel) 1114.7 (uchel) (Defra, 2010)
11	Y sefyllfa bresennol (gwaelodlin) yn cynnwys SuDS sy'n cydymffurfio â'r safonau ar 20% i 40% o ddatblygiadau newydd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y gallai hyn fod yn optimistaidd (felly gallai buddion y ddau opsiwn polisi fod yn fwy na'r rhai a amcangyfrifir yma).
12	Bydd yr opsiwn cynllunio yn arwain at SuDS sy'n cydymffurfio â'r safonau ar 30% (isel), 40% (canolog) neu 50% (uchel) o ddatblygiadau newydd.
13	Mae'r amcanestyniadau ar gyfer datblygiadau tai i'w gweld yn Atodiad 1, ac ar gyfer datblygiadau masnachol a diwydiannol yn Atodiad 2. Mae'r amcanestyniadau hyn at ei gilydd yn uwch na'r adeiladu gwirioneddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad, gallent fod yn anodd eu cyrraedd.

### **Opsiwn 1: Gwneud dim**

- 7.13 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac mae'n golygu parhau â'r polisi anrheoleiddiol presennol.
- 7.14 Bydd costau a buddion yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn (er enghraifft o ganlyniad i dwf trefi neu newid yn yr hinsawdd), ond cymerir y byddant yn cael yr un effaith ar bob opsiwn. O ganlyniad, nid ydynt yn cael eu hystyried yn rhai ychwanegol, ac nid ydynt yn cael eu dadansoddi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

### **Opsiwn 2: Cychwyn Atodlen 3**

- 7.15 Dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ac mae'n golygu gwneud defnyddio SuDS sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol yn orfodol ar bob datblygiad bach a mawr (mwy nag 1 annedd neu safleoedd sy'n fwy na 0.1 hectar).
- 7.16 Mae crynodeb o'r effeithiau sy'n cael eu hystyried yn debygol dan Opsiwn 2 i'w weld yn Nhabl 5 isod. Mae hyn hefyd yn cynnwys y grŵp sy'n cael ei effeithio, disgrifiad o'r effaith, a yw'r effaith yn debygol o fod yn gost neu fudd i'r grŵp sy'n cael ei effeithio, a yw'r effaith yn digwydd unwaith ynteu a yw'n rheolaidd, a oes gwerth wedi'i amcangyfrif iddo a sylwadau yn nodi'r rhesymau dros hyn.



Tabl 5: Effeithiau Opsiwn 2

Grŵp	Effaith	Disgrifiad	Cost neu Fudd?	Untro neu reolaidd?	Gwerth yn yr Aseiad Risg Rheoleiddio?	Sylwadau
Datblygwyr	Adeiladu	Adeiladu SuDS sy'n cydymffurfio â safonau	Budd	Rheolaidd	Oes	Mae tystiolaeth o adroddiad EPC yn awgrymu bod y costau cyfalaf yn is ar gyfer SuDS sy'n cydymffurfio â'r safonau nag ar gyfer systemau confensiynol. Gallai rhywfaint o'r budd hwn ddod i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth, felly mae'n bosibl hefyd y byddai rhywfaint o effaith ailddosbarthol.
	Ffioedd	Ffioedd gwneud cais/cymeradwyo/ardystio/archwilio/mabwysiadu	Cost	Rheolaidd	Oes	Disgwylir y bydd newidiadau gweinyddol yn niwtral o ran cost, felly bydd costau'n cael eu gwrthbwyso gan reffeniw'r corff cymeradwyo SuDS ac ni fydd newid net cyffredinol. Er hyn, bydd effaith ailddosbarthol felly bydd angen asesu'r effeithiau.
	Cymryd tir	Tir ychwanegol sy'n cael ei gymryd ar gyfer SuDS	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Mae CIWEM (2017) yn dod i'r casgliad hwn: " <i>We consider that arguments for not delivering SuDS on the basis of site constraints may be overstated... with good planning there may be no additional requirement for land or that the additional land needed for SuDS can be small and affordable</i> ". Os yw SuDS yn cael eu cynllunio fel rhan o ddatblygiadau o'r cychwyn, ac os yw'r broses gynllunio'n

## Atodiad 1

						egluro'n glir bod SuDS yn ofynnol, nid yw'n ymddangos bod unrhyw effaith ar nifer yr unedau, ac ymddengys bod hon yn gost ymddangosiadol sydd o ganlyniad heb amcangyfrif o'i gwerth.
	Sefydlu	Meithrin capasiti, uwchsgilio a hyfforddi	Cost	Untro	Oes	Cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio
	Taliadau cysylltu	Osgoi ceisiadau/taliadau cysylltu dŵr wyneb	Budd	Rheolaidd	Oes	Gallai gael ei wrthbwysu gan unrhyw ostyngiad posibl yn referniw cwmnïau dŵr a charthffosiaeth.
	Mabwysiadu, gweithredu a monitro	Llai o weithredu a monitro, a sicrwydd o fabwysiadu, yn arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y broses gynllunio a gwaith datblygu, yn ogystal â llai o ryngweithio / rhyngweithio symlach â chasgliad cymhleth o fuddiannau, gan gynnwys y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, yr Awdurdod Cynllunio, yr Awdurdod Prifffyrdd a Cyfoeth Naturiol Cymru	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
Awdurdodau Lleol/cyrrff cymeradwyo SuDS	Sefydlu	Sefydlu corff cymeradwyo SuDS, gan gynnwys gweinyddiaeth, cyfrifyddu, ffioedd cyfreithiol, taliadau cofrestru, hysbysebu, gweithgaredd hyrwyddo, ymgysylltu, hyfforddiant gweithwyr ac yn y blaen	Cost	Untro	Oes	Cynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol
	Gweithredu a monitro	Gweithredu a chynnal a chadw SuDS	Budd	Rheolaidd	Oes	Mae tystiolaeth o adroddiad EPC yn awgrymu bod costau gweithredu a monitro yn is ar gyfer SuDS sy'n cydymffurfio â safonau nag ar gyfer systemau confensiynol. Gallai rhywfaint o'r budd hwn ddod i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth, felly mae'n bosibl y byddai rhywfaint o effaith ailddosbarthol.
	Mabwysiadu	Dyletswydd/cyfrifoldeb ychwanegol i gynnal a chadw, yn cael ei gwrthbwysu o bosibl gan lai o berygl o gynlluniau'n cael eu gadael	Cost neu fudd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.

## Atodiad 1

	Refeniw	Refeniw o ffioedd gwneud cais/cymeradwyo	Budd	Rheolaidd	Oes	Disgwylir i newidiadau gweinyddol fod yn niwtral o ran cost, felly bydd y buddion yn cael eu gwrthbwysu gan gostau datblygwyr ac ni fydd newid net cyffredinol. Er hyn, bydd effaith aiddosbarthol felly bydd angen asesu'r effeithiau.
	Monitro a gorfodi	Monitro a gorfodi SuDS, gan gynnwys apeliadau a sicrhau eu gweithrediad priodol (e.e. palmantau mân-dyllog a ffosydd cerrig)	Cost	Rheolaidd	Oes	Gallai gael ei gwrthbwysu gan unrhyw gynnydd posibl yn refeniw'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth.
Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth	Sylfaen asedau	Cost cyfle cynnydd rhagwelawy mewn sylfaen asedau, y gall cwmnïau wneud elw o ganlyniad iddo	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Byddai unrhyw arbedion i gwmnïau'n cael eu dychwelyd i gwsmeriaid drwy broses reoleiddiol, a byddai hynny'n golygu na fyddai unrhyw enillion net.
	Taliadau cysylltu	Llai o refeniw o geisiadau/taliadau cysylltu dŵr wyneb	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Dan yr opsiwn hwn, byddai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau'n dal i gysylltu â'r garthffos fudr neu'r garthffos gyhoeddus gyfun, felly mae'n debyg y byddai angen i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth roi caniatâd o hyd a chodi tâl am gysylltiadau ac archwilio (er y gallai cwmnïau weld gostyngiad mewn ffioedd mabwysiadu). O ganlyniad ni roddwyd amcangyfrif o werth unrhyw effeithiau posibl.
	Seilwaith	Llai o angen/Gohirio'r angen i fuddsoddi mewn seilwaith carthffosiaeth yn y dyfodol, llai o gostau gweithredu a monitro ar gyfer carthffosydd confensiynol (e.e. pwmpio, trin) a gwella'r gallu i fabwysiadu dull integredig ar gyfer systemau dŵr	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Wedi ei gynnwys yn barod i raddau helaeth mewn budd adeiladu i adeiladwyr a budd gweithredu a monitro i awdurdodau lleol/cyrff

## Atodiad 1

		trefol.				cymeradwyo SuDS
	Monitro a gorfodi	Llai o angen monitro a gorfodi cysylltiadau carthffosiaeth	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dan yr opsiwn hwn, byddai'r rhan fwyaf o ddatblygwyr yn dal i gysylltu â'r garthffos fudr neu'r garthffos gyhoeddus gyfun, felly mae'n debyg y byddai cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn dal i fod â'r un sylfaen asedau ac y byddai angen iddynt wneud yr un lefel o archwilio, monitro a gorfodi o hyd. O ganlyniad ni roddwyd amcangyfrif o werth unrhyw effeithiau posibl.
Perchenogion/meddianwyr eiddo	Taliadau dŵr wyneb	Lleihad mewn taliadau a delir am ddraenio dŵr wyneb	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Mae unrhyw ostyngiad mewn taliadau a delir i gwmni dŵr a charthffosiaeth yn debygol o gael ei wrthbwyso gan dâl rheoli datblygu, felly ni fyddai effaith gyffredinol.
	Perygl llifogydd	Osgoi difrod ac effeithiau cysylltiedig (e.e. ar iechyd seicolegol) oherwydd llai o berygl llifogydd	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dylai unrhyw fudd fod yr un fath ar gyfer SuDS a systemau pibellau (oni bai fod y safonau'n uwch ar gyfer eiddo nag ar gyfer carthffosydd, sy'n anhebygol). O ganlyniad, ni ragwelir unrhyw fudd net.
	Amwynder	Datblygiadau mwy atyniadol a brafiach i fyw ynddynt	Budd	Rheolaidd	Oes	Amcangyfrifir eu gwerth yn BeST gan ddefnyddio amcangyfrifon o barodrwydd trigolion i dalu am 'wella strydoedd drwy wyrddu'. Gallai'r rhain gynnwys elfennau o fuddion eraill i'r boblogaeth ehangach (yn enwedig bioamrywiaeth, iechyd, hamdden ac ansawdd dŵr), felly ni roddir amcangyfrif ar

## Atodiad 1

					wahân o werth y rhain oherwydd y risg o gyfrif ddwywaith.	
	Gweithredu a monitro	Cyfrifoldebau ychwanegol am ddŵr wyneb ar gwrtil	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Yn wahanol i bibellau, ni ellir anwybyddu SuDS, ac er y gallai hyn gael ei weld fel cost ychwanegol / niwsans (i ddechrau o leiaf), gallai hefyd fod yn fudd gan fod llai o debygolrwydd/achosion o broblemau yn deillio o SuDS. Yn gyffredinol felly, cymerir nad oes effaith net.
	Tymheredd adeilad	Effaith SuDS ar oeri (haf) neu inswleiddio (gaeaf)	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
	Troseddau	Llai o droseddau yn erbyn eiddo neu bobl	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
	Gostegu traffig	Risg damweiniau ffyrdd neu gyfleoedd hamdden ar y stryd	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
Llywodraeth Cymru	Torri cyfraith Ewropeaidd	Osgoi perygl o dorri cyfarwydddebau'r UE sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
	Twf	Twf economaidd	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
	Galluogi datblygu	Cyfraniad i dargedau tai fforddiadwy	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Mae unrhyw ostyngiad mewn costau adeiladu tai wedi ei gyfrif yn barod (dan 'datblygwyr') a gallent gael eu gwrthbwyso gan ostyngiad posibl mewn dwysedd tai (sydd hefyd wedi'u cyfrif dan 'datblygwyr')
	Apeliadau	Costau sefydlu a rhedeg Arolygiaeth Gynllunio i ymdrin ag apeliadau	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Gwaith yr Arolygiaeth Gynllunio yn cael ei ariannu drwy adennill costau ar sail achosion unigol. Dim costau 'sefydlu' nac effeithiau ar Lywodraeth Cymru.
	Manteision	Yn gysylltiedig â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Yn gorgyffwrdd ag effeithiau ar

## Atodiad 1

	ehangach	Dyfodol, gan gynnwys Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach ac yn y blaen				y 'boblogaeth gyffredinol', felly risg uchel o gyfrif ddwywaith os yw'n cael ei gynnwys yma.
	Cynaeafu dŵr glaw	Lleihau llif, llygredd neu ddefnyddio'r prif gyflenwad	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
	Twristiaeth	Atyniad safleoedd ymwelwyr	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
Cyfoeth Naturiol Cymru	Rheoleiddio	Gwella'r gallu i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig, perygl llifogydd dŵr wyneb a darparu manteision ecosystem	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
Y boblogaeth gyffredinol	Perygl llifogydd	Mwy o berygl llifogydd mewn mannau cyhoeddus (e.e. ffyrdd) oherwydd gormodiant	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Tebygol o gael ei wrthbwyso gan unrhyw leihad yn y risg o lifogydd gorlwytho hydrolog sy'n deillio o gyfaint llai mewn system garthffosiaeth
	Bioamrywiaeth	Cynefinoedd a chyfluoedd newydd neu well i fywyd gwyllt	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Ni roddwyd amcangyfrif o'r gwerth oherwydd y potensial i gyfrif ddwywaith â budd amwynder i berchenogion/ meddianwyr eiddo.
	Carbon	Lleihau neu ddal a storio allyriadau nwyon tŷ gwyrdr o ganlyniad i lai o bwmpio/trin neu blannu newydd/ychwanegol	Budd	Rheolaidd	Oes	Cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol
	Addysg	Mwy o gyfluoedd i ddysgu a datblygu	Budd	Rheolaidd	Oes	Cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol
	Newid hinsawdd	Gwella'r gallu i leihau effeithiau disgwylidig newid hinsawdd neu addasu iddynt	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
	Swm y dŵr	Rhagor o ddŵr wyneb neu ddŵr daear ar gael i'w dynnu, neu i helpu i liniaru sychder/prinder dŵr	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi neu fesur effaith yn bendant.
	Iechyd	Gwell iechyd a lles o ganlyniad i gynyddu/gwella mynediad a defnydd o fannau gwyrdd neu, gan ddibynnu ar y math o SuDS a ddefnyddir, gwell ansawdd aer a rheoli tymheredd (e.e. defnyddio toeau gwyrdd)	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Ni roddwyd amcangyfrif o'r gwerth oherwydd y potensial i gyfrif ddwywaith â budd amwynder i berchenogion/ meddianwyr eiddo.
	Adloniant	Gwell cyfluoedd hamdden (e.e. cerdded, pysgota, chwaraeon dŵr)	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Ni roddwyd amcangyfrif o'r gwerth oherwydd y potensial i gyfrif ddwywaith â budd amwynder i berchenogion/

## Atodiad 1

					meddianwyr eiddo.
Ansawdd dŵr	Llai o garthffosydd yn gorlifo, a dŵr wyneb yn treiddio i'r ddaear yn naturiol cyn iddo fynd i gyrsiau dŵr, gan wella ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear, a dyfroedd yr aberoedd a'r arfordir, yn gyson ag amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Ni roddwyd amcangyfrif o'r gwerth oherwydd y potensial i gyfrif ddwywaith â budd amwynder i berchenogion/ meddianwyr eiddo.

7.17 Mae Tabl 6 yn crynhoi'r effeithiau gwerth presennol ar gyfer Opsiwn 2. Ystyrir pob effaith â gwerth yn ei dro yn Nhabl 6 isod. Amcangyfrifir bod y gwerth presennol net ar gyfer Opsiwn 2 yn £155.5 miliwn (yn amrywio o £78.9m i £945.2m). Mae'n gadarnhaol awgrymu bod y buddion net i gymdeithas yn fwy na'r costau net i gymdeithas.

*Tabl 6: Tabl yn crynhoi effeithiau gwerth presennol ar gyfer Opsiwn 2*

Grŵp	Effaith	Cyfanswm effaith gwerth presennol (£ miliwn)		
		Isel	Canolog	Uchel
Datblygwyr	Adeiladu	80.3	160.5	955.9
	Ffioedd	- 2.6	- 4.8	- 7.4
	Sefydlu	- 0.1	- 0.3	- 0.5
	Taliadau cysylltu	1.5	5.1	10.7
Awdurdodau lleol/cyrrff cymeradwyo SuDS	Sefydlu	- 0.0	- 0.0	- 0.0
	Gweithredu a monitro	- 0.1	0.2	0.3
	Refeniw	2.6	4.8	7.4
	Monitro a gorfodi	- 5.0	- 15.3	- 29.9
Perchenogion/meddianwyr eiddo	Amwynder	2.1	4.7	7.5
Y boblogaeth gyffredinol	Carbon	0.1	0.3	0.6
	Addysg	0.1	0.2	0.6
	<b>CYFANSWM</b>	<b>78.9</b>	<b>155.5</b>	<b>945.2</b>

**7.18 Datblygwyr: Adeiladu SuDS**

Mae'r effaith flynyddol ar ddatblygwyr sy'n gysylltiedig ag adeiladu SuDS fel a ganlyn.

**Preswyl**

Isel: £9,594,089  
 Canolog: £19,596,997  
 Uchel: £117,082,700

**Masnachol a diwydiannol**

Isel: £605,694  
 Canolog: £785,026  
 Uchel: £4,315,041

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwyd yn Nhabl 7.



Tabl 7: Effaith ar ddatblygwyr: Adeiladu SuDS

		Gwerth	Unedau	Ffynhonnell	Tybiaethau
Amcangyfrif mesuredig o effaith (preswyl)	Isel	5,220	Cartrefi newydd y flwyddyn	Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) <sup>14</sup>	Tybio bod SuDS sy'n cydymffurfio â safonau ar 20-40% o ddatblygiadau newydd ar hyn o bryd, felly mae'r opsiwn yn berthnasol i 60% (isel), 70% (canolog) ac 80% (uchel) o ddatblygiadau newydd ychwanegol.
	Canolog	10,010		Papur Gwyn ar Dai (2012) <sup>15</sup>	
	Uchel	12,946		Gwybodaeth o gynlluniau datblygu lleol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (Mawrth, 2017)	
Gwerth ariannol (preswyl)	Isel	1,838	Arbediad gwariant cyfalaf yr uned £	EPC (2017) <sup>16</sup>	Dileu allanolynnau
	Canolog	1,958			Gwerth canolrif
	Uchel	9,044			Gwerth cymedrig
Amcangyfrif mesuredig o effaith (masnachol a diwydiannol)	Isel	330	Datblygiadau newydd y flwyddyn	Archebion diwydiannol a masnachol newydd ar gyfer adeiladu 2018-2026 (isafswm) <sup>17</sup>	Tybio bod SuDS sy'n cydymffurfio â safonau ar 20-40% o ddatblygiadau newydd ar hyn o bryd, felly mae'r opsiwn yn berthnasol i 60% (isel), 70% (canolog) ac 80% (uchel) o ddatblygiadau newydd ychwanegol.
	Canolog	401		Fel uchod (cymedr)	
	Uchel	477		Fel uchod (uchafswm)	
Gwerth ariannol (masnachol a diwydiannol)	Isel	1,838	Arbediad gwariant cyfalaf yr uned £	EPC (2017)	Dileu allanolynnau
	Canolog	1,958			Gwerth canolrif
	Uchel	9,044			Gwerth cymedrig

### 7.19 Datblygwyr: ffioedd cyrff cymeradwyo SuDS

Mae'r effaith flynyddol ar ddatblygwyr sy'n gysylltiedig â ffioedd cyrff cymeradwyo SuDS fel a ganlyn.

Isel: - £335,646

Canolog: - £609,593

<sup>14</sup> Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) Future Need and Demand for Housing in Wales

<sup>15</sup> Yn seiliedig ar Holmans, A. a Monk, S. (2010) Housing need and demand in Wales 2006–2026. Rhif Ymchwil Gymdeithasol 03/2010. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

<sup>16</sup> Sustainable Drainage Systems on new developments, Analysis of evidence including costs and benefits of SuDS construction and adoption. Final Report for the Welsh Government, Ionawr 2017

<sup>17</sup> ONS, NEWOGOR New Orders for Construction: by Government Office Region (Wales), darllenwyd Ebrill 2017

Uchel: - £939,441

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn Nhabl 8.

*Tabl 8: Effaith ar ddatblygwyr: ffioedd cyrff cymeradwyo SuDS*

		Gwerth	Unedau	Ffynhonnell	Tybiaethau
Amcangyfrif mesuredig o effaith	Isel	562	Ceisiadau y flwyddyn	Defra (2010) <sup>18</sup>	Cyfanswm: mawr ar raddfa fawr (9.75); mawr ond heb fod ar raddfa fawr (42.25); bach (510.25)
	Canolog	895			Cyfartaledd isel ac uchel
	Uchel	1,228			Cyfanswm: mawr ar raddfa fawr (21.3); mawr ond heb fod ar raddfa fawr (92.3); bach (1,114)
Gwerth ariannol	Isel	- 597	Ffi y cais	Defra (2010)	Gwerth gwreiddiol (£507) wedi'i ddiweddarau i brisiau 2016
	Canolog	- 681			Cyfartaledd isel ac uchel
